Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **1 Awst 2016** | |
| **Amser:** | **16:00 – 17:05** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>Prif Gwnstabl Cynorthwyol Dros Dro Pam Kelly (PGC)<br>Mr Adrian Williams, Cyfarwyddwr Adnoddau (CA) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM)<br>Arolygydd Mark McSweeney, Swyddog Staff (MMS) |
| **Ymddiheuriadau:** | Prif Gwnstabl Simon Prince QPM (CC)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mrs Claire Bryant, Rheolwr Swyddfa, SCHTh (CB) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 06/07/16** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
| **PB 2022** | **SCHTh i drefnu cyfarfod rhwng y CHTh a Chadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol** | **Ar waith** |
| **PB 2023** | **DBG, Rheolwr Ansawdd SCHTh a'r Pennaeth Safonau Proffesiynol i gynnal adolygiad o'r SGC a'r ffordd y mae cwynion yn erbyn yr heddlu'n cael eu trin** | **Ar waith** |

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf a materion yn codi**

PB 2013 - Cytunodd y PGC i rannu'r Cylch Gorchwyl sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer Timoedd Plismona Bro (TPB). Disgwylir argymhellion o waith Amanda Diggens o fewn 8-12 wythnos. Bydd model gweithredu newydd ar gyfer TPB yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Medi.

**Cam Gweithredu: MMS i rannu Cylch Gorchwyl ar gyfer gwaith TPB gyda CM**

PB 2017 – Dywedodd y CHTh ei fod yn gobeithio cynnal cyfres o sesiynau gwybodaeth amser brecwast yn ystod Wythnos Busnesau Bach ym mis Medi.

PB 2023 – Cadarnhaodd CM bod trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal er mwyn symud yr adolygiad ymlaen. Ystyriodd y CHTh y gall fod cyfle ar gyfer ymagwedd gyson ar gyfer trin cwynion ledled Cymru, a oedd yn cael ei drafod â Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Rhoddodd CM drosolwg o fwriad yr adolygiad, gan gynnwys ystyried prosesau o fewn y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus (SGC), yr Adran Safonau Proffesiynol (ASP) ac ymgynghori mewn perthynas â bodlonrwydd dioddefwyr. Mynegodd y CHTh yr angen i gyfathrebu prosesau'n glir i'r cyhoedd. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r angen i ganolbwyntio ar drin data bodlonrwydd dioddefwyr.

**Diweddariad y Prif Gwnstabl Cynorthwyol**

Rhoddodd y PGC drosolwg o faterion gweithredol allweddol, gan gynnwys marwolaeth milwr yn Aberhonddu a digwyddiad lle gadawyd plentyn heb ofalydd ar fws meithrin yn Aberystwyth. Awgrymodd y PGC y dylid rhoi amserlen o’r gwaith sy’n cael ei wneud ar hyn o bryd gan brif swyddogion i’r CHTh.

**Cam gweithredu: PGC i roi amserlen o’r gwaith sy’n cael ei gynnal ar hyn o bryd i’r CHTh**

Cynghorodd y PGC bod diweddariad mewn perthynas â Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM) wedi’i anfon at SCHTh, gan nodi bod lefel y troseddolrwydd a gynhaliwyd gan y garfan cyn ymuno ag IOM yn lleihau pan oeddent yn rhan o’r rhaglen o oddeutu 2%. Trafododd y CHTh y gwahaniaethau o ran lefelau ymyrraeth troseddwyr o bobl ifainc i oedolion. Dywedodd y PGC bod yr adolygiad o reoli troseddwyr yn digwydd ledled Cymru, a oedd yn ystyried y posibilrwydd o estyn IOM i gynnwys troseddwyr cam-drin domestig.

Roedd archwiliad chwarterol o’r ASP wedi’i gynnal gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ddiwedd Gorffennaf, a oedd wedi nodi gwelliannau sylweddol o ran amseroldeb trin cwynion, apeliadau ac archwilio ymchwiliadau cwynion. Roedd y PGC yn bwriadu rhannu’r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu â’r CHTh.

Roedd pum aelod staff wedi’u hatal o’r gwaith ar hyn o bryd.

**Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Roedd y CHTh wedi derbyn cadarnhad ei fod nawr yn aelod o’r Bwrdd Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol. Roedd y CHTh wedi ymweld â’r ganolfan yn Sain Tathan, ac wedi trafod defnydd HDP o’r gwasanaeth. Ailadroddodd ei fwriad i gefnogi a hyrwyddo’r defnydd o’r gwasanaeth, ac ar yr un pryd, sicrhau bod HDP yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl. Gofynnodd y PGC os oedd yn hysbys pryd fyddai’r costau rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael eu rhyddhau. Dywedodd y CHTh nad oedd hyn yn hysbys ar hyn o bryd, ond byddai’n codi’r mater yn y cyfarfod Bwrdd nesaf. Dywedodd y PGC bod y Cylch Gorchwyl ar fin cael ei ddiweddaru, ac y byddai’n cael ei rannu â’r CHTh.

**Cam gweithredu: Rhannu’r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol â’r CHTh**

Dywedodd y CHTh ei fod yn awyddus i drafod y defnydd posibl o ddronau i ddarparu cefnogaeth ychwanegol o’r awyr. Dywedodd y PGC bod y posibilrwydd o gydweithio â’r gwasanaeth tân mewn perthynas â dronau roeddent newydd brynu’n destun archwiliad. Awgrymodd y CA y byddai’n ddefnyddiol i’r Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol ddod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer dronau er mwyn safoni’r defnydd ymysg y gwasanaethau brys. Dywedodd y CHTh nad oedd hi’n debyg fod gan y Gwasanaeth

Heddlu Awyr Cenedlaethol y wybodaeth na'r arbenigedd sydd angen er mwyn gwneud hyn, ond gellir ei ystyried yn y dyfodol.

### *Trwyddedu Arfau Saethu*

Nododd y CHTh bod data perfformiad yn awgrymu y bu gwelliannau o ran yr amser troi ar gyfer adnewyddu trwyddedau. Roedd yr ASP dal yn derbyn pryderon gan geiswyr a oedd yn disgwyl am amser gormodol i'w trwyddedau gael eu hadnewyddu. Roedd y CHTh yn cydnabod y gall rhai achosion fod yn gymhleth a bod newid i'r broses mewn perthynas â llythyron at feddygon teulu. Roedd y CHTh yn bwriadu trafod y mater â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn ystod yr wythnos i ddod. Dywedodd y PGC bod hwn yn faes lle'r oedd angen gwella perfformiad. Byddai achos busnes yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Grŵp Prif Swyddogion i edrych ar opsiynau ar gyfer rheoli llwyth gwaith. Gofynnodd y PGC am ddeufis i sefydlogi lefelau staffio a dadansoddi data perfformiad i sefydlu beth oedd yn achosi'r oedi, cyn adrodd yn ôl i'r CHTh. Ystyriodd y PGC nad oedd perygl uwch i'r cyhoedd oherwydd y materion er bod angen gwella prosesau. Cydnabu'r CA bod anghysondebau'n gorwedd y tu allan i'r data perfformiad cyfartalog, ond yn gyffredinol, roedd y maes busnes wedi ymdrin yn llwyddiannus â chynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau.

**Cam Gweithredu: CHTh i godi'r mater o'r broses ceisiadau arfau saethu â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda**

**Cam Gweithredu: PGC i ddiweddaru'r CHTh ar berfformiad Trwyddedu Arfau Saethu ym mis Hydref 2016**

### *Y bloc llety*

Roedd y CHTh wedi derbyn y ffigurau diweddar ar gyfer adnewyddu'r bloc llety. Roedd y CHTh wedi gofyn i'r PSA, y Cyfarwyddwr Ystadau a'r CA i ddatblygu achos busnes manwl i fuddsoddi yn natblygiad y bloc. Eglurodd y CHTh y byddai angen yr argostau manwl sy'n gysylltiedig â rhedeg y cyfleuster ar yr achos busnes.

**Cam Gweithredu: Y PSA, y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r CA i ddatblygu achos busnes manwl mewn perthynas ag adnewyddu'r bloc llety**

## Diweddariadau

### *Bwrdd yr Iaith Gymraeg*

Holodd y CHTh pa un ai a oedd gan yr Heddlu Fwrdd Iaith Gymraeg o hyd er mwyn symud gweithredu'r Safonau Cymraeg ymlaen. Cadarnhaodd y CA bod y Bwrdd yn

eistedd o dan y Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth a'i fod yn cael ei gadeirio gan y Prif Uwch-arolygydd Aled Davies. Awgrymodd y PGC bod y DBG yn rhoi gwybodaeth i'r CHTh am waith cyfredol yr Heddlu ar y Safonau cyn cyfarfod y PG a'r CHTh â Chomisiynydd y Gymraeg. Roedd y CHTh yn cefnogi'r safonau, ond roedd e'n ceisio eglurhad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar hyn o bryd mewn perthynas â gweithredu'r Safonau i wasanaethau wedi'u comisiynu.

**Cam Gweithredu: DBG i roi diweddariad i'r CHTh ar gynnydd yr Heddlu mewn perthynas â'r Safonau Cymraeg cyn ei gyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg**

***Ymchwiliadau'r Comisiwn Gwybodaeth***

Nododd y CHTh y ddirwy a gyhoeddwyd i Heddlu Dyfed-Powys gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Dywedodd y PGC bod 3 ymchwiliad yn parhau. Roedd rhai'n ddatganiadau mewnol am dorri amodau, ac roedd rhai wedi'u cyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd y PGC yn ystyried y gallai sancsiynau sylweddol cael eu gweithredu i un o'r ymchwiliadau dan sylw. Ceisiodd y CHTh sicrwydd bod camau gweithredu perthnasol wedi'u cymryd o ganlyniad i'r tor amodau posibl. Dywedodd CM bod hyn yn debygol o gael ei ddangos yn y Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth y mae'n mynychu, a byddai modd iddi roi diweddariad i'r CHTh ar ôl eu cyfarfod nesaf ar 4 Awst.

**Cam Gweithredu: CM i ddiweddaru CHTh yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth**

**Unrhyw Fusnes Arall**

Nododd CM y byddai'r broses recriwtio Prif Gwnstabl yn cychwyn fory, a'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau fyddai 1 Medi. Roedd y panel penodi wedi'i lunio, ac roedd diwrnod ymgyfarwyddo'n cael ei drefnu ar gyfer ymgeiswyr ar 25 Awst. Byddai'r hysbyseb yn cael ei osod ar wefannau SCHTh a'r Heddlu, ac yn cael ei gyflwyno i'r holl gyrff dosbarthu perthnasol.

Gofynnodd MMS am i gamau gweithredu o gyfarfodydd gael eu cyflwyno i'r Heddlu mor fuan â phosibl ar ôl y cyfarfodydd fel bod modd eu gweithredu mor fuan â phosibl.

Gofynnodd y CHTh am i gofnodion cyfarfodydd gael eu dosbarthu'n fewnol cyn eu cyhoeddi ar y wefan. Nododd y PGC bod angen gwella cyfathrebu mewnol, a byddai MMS yn cwrdd â'r Uwch Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol i drafod sut y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i staff.

**Cam Gweithredu: Dosbarthu cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n fewnol i staff cyn eu cyhoeddi ar wefan SCHTh**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 01/08/16 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2024** | **MMS i rannu Cylch Gorchwyl ar gyfer gwaith TPB gyda CM** | **MMS** |
| **PB 2025** | **PGC i roi amserlen o'r gwaith sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd i'r CHTh** | **PGC** |
| **PB 2026** | **Rhannu'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu Awyr Cenedlaethol â'r CHTh** | **PGC** |
| **PB 2027** | **CHTh i godi'r mater o'r broses ceisiadau arfau saethu â Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda** | **CHTh** |
| **PB 2028** | **PGC i ddiweddaru'r CHTh ar berfformiad Trwyddedu Arfau Saethu ym mis Hydref 2016** | **PGC** |
| **PB 2029** | **Y PSA, y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r CA i ddatblygu achos busnes manwl mewn perthynas ag adnewyddu'r bloc llety** | **PSA / CA** |
| **PB 2030** | **DBG i roi diweddariad i'r CHTh ar gynnydd yr Heddlu mewn perthynas â'r Safonau Cymraeg cyn ei gyfarfod â Chomisiynydd y Gymraeg** | **DBG** |
| **PB 2031** | **CM i ddiweddaru CHTh yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd Sicrhau Gwybodaeth** | **CM** |
| **PB 2032** | **Dosbarthu cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Plismona'n fewnol i staff cyn eu cyhoeddi ar wefan SCHTh** | **MMS / CB** |